# LC1473

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** | **LEGISLATION COMMITTEE REPORT** |

## Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999 ("Rheoliadau 1999") i ddarparu na fydd unrhyw berson yn gymwys i gael ei ethol na’i benodi i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor") oni bai, yn ogystal â bodloni'r meini prawf presennol am hyd y cyfnod y cafodd ei gyflogi fel athro, ei fod, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor ac wedi'i gyflogi mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol neu ysgol arbennig nas cynhelir felly.

Mae’r diwygiadau hefyd yn diwygio Rheoliadau 1999 er mwyn ei gwneud yn glir bod holl aelodau’r Cyngor i weithredu fel unigolion ac nid fel cynrychiolwyr unrhyw gyrff y maent yn perthyn iddynt neu a'u henwebodd hwy i gael eu penodi.

Mae’r Rheoliadau’n diwygio amryw o ddiffiniadau a nodwyd yn Rheoliadau 1999 i adlewyrchu’r termau sy’n cael eu harfer gan y Cyngor a hefyd yn diweddaru’r rhestr o gyrff yn Rheoliadau 1999 i adlewyrchu newidiadau a wnaed ers y tro diwethaf i Reoliadau 1999 gael eu diwygio.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Dim.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**6 Mawrth 2007**